# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **David Melding (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Roedd y Llywydd wedi ymddiheuro gan ei bod ar ymweld dinesig â Georgia yn rhinwedd ei swydd.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes, y byddai'r bleidlais ar ddadl Araith y Frenhines yn cael ei chynnal ar ddiwedd yr eitem ac y byddai'r holl bleidleisiau eraill yn cael eu cynnl cyn y Ddadl Fer.

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur ar y trefniadau ar gyfer presenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, fel rhan o'r ddadl ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (Araith y Frenhines).

Roedd Elin Jones yn pryderu am enwi Aelodau ac ymgeiswyr yn nhestun cynnig neu welliant. Cytunodd y swyddogion i godi'r mater gyda'r Llywydd wedi iddi ddychwelyd.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2014**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ariannu Addysg Uwch (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

Cytunodd y Pwyllgor Busnes o ran egwyddor i gyfeirio'r Bil Cam-drin Domestig, Trais ar sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (Cymru) at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn gohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil am bythefnos, i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

4.1 Y Bil Cam-drin Domestig, Trais ar sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (Cymru)

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn dweud eu bod yn teimlo bod cynnwys y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd yn fwy perthnasol i Faterion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac nad oeddent, felly, yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.